YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: CRAFFU AR GYLLIDEB DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU 2020-21

CHWEFROR 2020

Craffodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 ar 8 Ionawr. Yn dilyn y sesiynau hynny, mae'r Pwyllgor wedi cwblhau adroddiad sy'n cynnwys 27 o argymhellion. Y papur hwn yw ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

DULL HAWLIAU PLANT (ADRAN 2)

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn dychwelyd at gyhoeddi CRIA unigol ar ei Chyllideb Ddrafft i ddangos cydymffurfiad â'r Mesur, nes y gallwn fod yn dawel ein meddwl bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft yn dangos bod y ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP wedi'i hystyried yn glir.

Ymateb: Gwrthod
Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi defnyddio dull integredig mewn perthynas ag asesiadau effaith, sy'n cynnwys ystyried hawliau plant. Mae hyn yn adlewyrchu bod gennym gyfrifoldeb i ystyried ein penderfyniadau o nifer o safbwyntiau i ddeall eu heffaith, ond nid yw'n dibrisio'r pwysigrwydd rydym yn ei roi ar Hawliau plant.

Mae dull integredig hefyd yn ein galluogi i ddeall yn well effaith penderfyniadau yn gyffredinol, gan gydnabod bod pobl a lleoedd yn aml-ddimensiwn ac mae'r dull integredig yn ceisio casglu effeithiau lluosog a chronnol sy'n adlewyrchu profiadau go iawn pobl a gwirionedd ein heconomi, diwylliant ac amgylchedd.

Er enghraifft, rydym wedi ceisio ystyried hawliau plant a phobl ifanc, gan adlewyrchu eu nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n hanfodol i lesiant plant a phobl ifanc.

Rydym yn cydnabod ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu ein dull yn barhaus o ran asesu effeithiau penderfyniadau gwario strategol. Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf eleni, yn cynnwys gwelliannau cynlluniedig i'r broses o asesu effaith penderfyniadau cyllidebol a fydd yn cynnwys ystyried sut y gallwn wella ein dealltwriaeth o'r effeithiau ar Hawliau Plant.

Dylid cydnabod hefyd fod asesiadau o'r effeithiau yn elfen allweddol o'n dull o lunio polisïau a'u bod yn cael eu cynnal fel rhan o waith datblygu ac adolygu polisïau parhaus Llywodraeth Cymru. Mae'r adnodd Asesiad Effaith Integredig presennol yn ei gwneud yn ofynnol ystyried hawliau plant ac, fel y nodir yng nghyfraith Cymru, mae'n rhaid ystyried yr effaith ar blant a phobl ifanc pryd bynnag y byddwn yn defnyddio unrhyw rai o'n pwerau i wneud penderfyniad.

Dyletswydd Gweinidogion yw rhoi sylw dyledus i hawliau plant, yn hytrach na chwblhau CRIA. Fodd bynnag, mae'r broses CRIA yn caniatáu i ni roi strwythur wrth

ystyried yr effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar blant a'u hawliau, ar gam cynnar a thrwy gydol y broses datblygu a gweithredu.

Am y tro cyntaf eleni rydym hefyd wedi cyhoeddi'r dystiolaeth mae Gweinidogion unigol wedi ei rhoi i'w pwyllgorau pwnc eu hunain mewn un lle yn cynnwys dros 300 o dudalennau o dystiolaeth gan Weinidogion Cymru o ran sut maent wedi gosod eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn hon, sy'n cynnwys ystyried Hawliau Plant.

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A PHLANT (ADRAN 3)

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut mae'r dyraniadau cyllid cronnus ar gyfer iechyd meddwl amenedigol ar dudalen 28 papur cyllideb ddrafft y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cyfrifo a beth yw eu statws.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cyllid a ddarperir i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol wedi cael ei ddarparu mewn tri cham. Gwnaed y buddsoddiad cychwynnol mewn gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol i'r saith bwrdd iechyd a chafodd ei ddyrannu ar sail fformiwla; dyrannwyd yr ail gam drwy'r cronfeydd trawsnewid yn 2018-19; a'r trydydd cam oedd cyllid gwella gwasanaethau yn 2019-20.

Darparwyd y cyllid a oedd ar gael i fyrddau iechyd drwy'r cronfeydd trawsnewid iechyd meddwl a'r cyllid gwella gwasanaethau i nifer o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys iechyd meddwl amenedigol. Roedd gan fyrddau iechyd yr hyblygrwydd i ystyried anghenion eu poblogaeth a gwnaethant gyflwyno cynigion yn ystyried y galw a'r capasiti presennol.

O ganlyniad, blaenoriaethodd pedwar bwrdd iechyd wariant o'r cronfeydd trawsnewid iechyd meddwl (Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Phowys). Buddsoddodd pum bwrdd iechyd mewn gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol o'r cyllid gwella gwasanaethau (Cwm Taf Morgannwg, Aneurin Bevan, Powys, Bae Abertawe a Hywel Dda).

Y cyllid sydd wedi'i gynnwys ar dudalen 28 o'r papur cyllideb ddrafft yw'r swm sydd wedi'i gynnwys yn nyraniad y bwrdd iechyd perthnasol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

Bydd effaith y cyllid hwn yn cael ei monitro trwy'r trefniadau y cytunir arnynt ar gyfer cynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Rydym wedi nodi'n glir trwy ddyfarnu'r cyllid gwella gwasanaethau y disgwyliad y bydd hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth â Safonau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan erbyn mis Mawrth 2020 a Safonau Cymunedol Amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion erbyn mis Mawrth 2021. Mae'r disgwyliad hwn yn berthnasol hefyd i fyrddau iechyd na wnaethant ddewis dyrannu eu harian ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn, ac maent wedi cael gwybod am hyn.

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei bwriadau mewn perthynas â darparu uned mamau a babanod arbenigol yng Nghymru erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-20.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi ysgrifennu at y pwyllgor i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer defnyddio safle Tonna er mwyn parhau gydag Uned Mamau a Babanod gyda chwe gwely, y disgwylir y bydd yn weithredol erbyn gwanwyn 2021.

Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gynnal arfarniad pellach o'r opsiynau er mwyn pennu'r model priodol ar gyfer Uned Iechyd Meddwl Amenedigol Mamau a Babanod barhaol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un ai i barhau i ddefnyddio'r uned wedi'i hailwampio ar safle Ysbyty Tonna ar sail barhaol, neu ddatblygu Uned Mamau a Babanod newydd ar safle Castell-nedd Port Talbot.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu diweddariadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar y mater hwn, a bydd y diweddariadau hyn hefyd yn ystyried y ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru.

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried yn sylfaenol ei safbwynt mewn perthynas â threfniadau monitro ac atebolrwydd ar gyfer ariannu gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Dylai hyn gael ei ategu gan adolygiad o wariant ar y gwasanaethau hyn (ar draws y system gyfan) er mwyn gwella eglurder, tryloywder a'r gallu i fesur effaith yn effeithiol.

Ymateb: Gwrthod

Rydym wedi nodi'n flaenorol mai nad gwahanu cyllid ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc a gwasanaethau oedolion yw'r bwriad am y byddai hyn yn debygol o greu rhaniad artiffisial rhwng gwasanaethau. Byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion iechyd a llesiant eu poblogaeth. Mae hyn yn cynnwys asesiadau manwl o anghenion iechyd ar lefel leol er mwyn llywio penderfyniadau cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd – nid yw hyn yn rhywbeth y gellir ei gynllunio ar lefel genedlaethol.

Lle rydym wedi darparu cyllid ychwanegol, er enghraifft drwy Gyllid Gwella Gwasanaethau, caiff cyllid ei flaenoriaethu yn unol â meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar lefel genedlaethol sy'n cynnwys cymorth i blant a phobl ifanc, lle rydym wedi nodi ein disgwyliad bod swm sylweddol o'r dyraniad yn cael ei ddefnyddio yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod gan fyrddau iechyd yr hyblygrwydd o hyd i'w ddefnyddio mewn meysydd lle mae'r galw mwyaf.

Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn wedi'u cynnwys yn y cynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a bydd diweddariadau rheolaidd ar gael ar lefel bwrdd iechyd ac ar lefel genedlaethol er mwyn darparu tryloywder. Yn ogystal, mae'r amodau ar gyfer cyllid ychwanegol hefyd yn cynnwys cytuno ar gynigion drwy'r Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol er mwyn sicrhau y cytunir ar gamau gweithredu a'u bod yn cydgysylltu â dulliau lleol.

O ran effaith, rydym yn parhau i graffu ar fyrddau iechyd o ran cyflawni targedau mynediad drwy gyfarfodydd perfformiad arferol, er enghraifft, cyfarfodydd Timau Gweithredol ar y Cyd. Lle rydym wedi darparu cyllid ychwanegol yn uniongyrchol i fyrddau iechyd drwy gyllid gwella gwasanaethau, rydym wedi darparu meini prawf clir ar gyfer y cyllid a byddwn yn monitro cyflawniad canlyniadau a nodir yn y cynigion drwy'r cynllun cyflawni. Bydd cyllid ychwanegol i fyrddau iechyd yn 2020-21 hefyd yn amodol ar feini prawf tebyg. Un enghraifft yw'r cerrig milltir a nodir yn y cynlluniau gwella pCAMHS, yn unol ag adolygiad sicrwydd Uned Cyflawni'r GIG.

Yn olaf, mae'r buddsoddiad gwirioneddol a fydd o fudd i iechyd a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc yn llawer ehangach na'r gwariant iechyd meddwl penodol, ond nid yw'n ymarferol cael amcangyfrif ystyrlon o hyn ar draws cyfanswm y cyllid.

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu amlinelliad o'r amserlen(ni) ar gyfer cyhoeddi'r set ddata iechyd meddwl ac yn cadarnhau bod y gwaith hwn ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn unol â'r amserlen.

Ymateb: Derbyn

Yng nghynllun cyflawni 2019-2022 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl rydym yn darparu manylion ar ein camau gweithredu i roi set ddata craidd iechyd meddwl ac anabledd dysgu safonedig genedlaethol ar waith gan gynnwys cyflwyno system gyfrifiadur System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).
Mae hyn yn nodi'r canlynol:

Blwyddyn 1 (2020)

- Sicrhau'r set ddata trwy brosesau Bwrdd Safonau Gwybodeg Cymru
- Dechrau cyhoeddi'r set ddata adran 135/136 newydd a'r targed 26 wythnos ar gyfer therapïau seicolegol ar Stats Cymru.
- Datblygu a chyflwyno set gyffredin o ffurflenni ar gyfer asesu, cynllunio gofal a thriniaeth, ac adolygiadau ar draws timau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Treialu model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a datblygu proses i'w chyflwyno.

Blwyddyn 2 (2021)

- Cyflwyno fersiynau Word o'r ffurflenni i'r holl wasanaethau.
- Gwella sut mae data yn cael ei rannu â'r cyhoedd, gan sicrhau bod gwybodaeth hawdd ei defnyddio ar gael ar wefan Stats Cymru.

Blwyddyn 3 (2022)

- Cyflwyno set ddata gyda System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ledled Cymru.
- Cyflwyno model sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ledled Cymru.

Byddwn yn darparu diweddariadau fel rhan o adroddiadau cynnydd cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd, os nad oes tystiolaeth ddigonol ar gyfer cyflwyno dull cwnsela mewn ysgolion traddodiadol i ysgolion cynradd:
▪ y bydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio tuag at ymyriadau y profwyd eu bod yn effeithiol mewn ysgolion cynradd; ac
▪ y bydd cyngor arbenigol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant yn cael ei geisio er mwyn goleuo penderfyniadau ynghylch defnyddio'r arian hwn.

Ymateb: Derbyn

Galwodd adroddiad Cadernid Meddwl y pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i ystyried darparu cwnsela i'r rhai sy'n iau nag 11 oed. Ers hynny, mae'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi eu dymuniad i ymestyn y cynllun cwnsela presennol mewn ysgolion i blant o dan y trothwy Blwyddyn 6, am mai dyma lle, yn ôl rhanddeiliaid, y ceir y lefel uchaf o anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu ar hyn o bryd, gyda phlant iau yn wynebu anawsterau. Fodd bynnag, tystiolaeth anecdotaidd yw hon ac rydym am sicrhau bod cyllid wedi'i dargedu er mwyn cael yr effaith fwyaf. Felly rydym am adolygu graddau'r anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu mewn grwpiau oed iau a sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael cwnsela mewn ysgolion ar hyn o bryd yn gallu cael gafael arno mewn ffordd deg a chyson, o fewn graddfeydd amser derbyniol. Rydym hefyd yn gwybod nad yw'r ddarpariaeth cwnsela un-i-un bresennol o reidrwydd yn briodol i'w defnyddio gyda phlant iau a byddwn am archwilio ffurf model cyflawni priodol. Bydd hefyd angen i weithgarwch ategu ein gwaith o ran y dull ysgol gyfan ehangach o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol a'n cynlluniau i ddatblygu Canllawiau Fframwaith ar gyfer ysgolion ar y mater hwn, ynghyd ag adnoddau ategol, gan gynnwys ymyriadau cyffredinol ac wedi'u targedu ar sail tystiolaeth (maes rydym yn ei archwilio ar hyn o bryd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Nododd ein papur diweddaru gweithgarwch a ddarparwyd i gyfarfod diwethaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar 27 Ionawr y byddai'r gyllideb ddrafft ar gyfer y gwaith ysgol gyfan yn cynyddu i £5m yn 2020-21 a bwriad y Gweinidogion i dargedu peth o'r cyllid hwn ar gyfer ehangu darpariaeth cwnsela mewn ysgolion. Gwnaeth y papur hefyd geisio barn y grŵp am flaenoriaethau cyllid yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf i'r grŵp ac ystyried eu safbwyntiau ar yr holl weithgarwch ysgol gyfan, gan gynnwys blaenoriaethau cyllid.

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu amlinelliad o'r amcangyfrif o gostau gweithredu eu cynlluniau pwrpasol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel, er mwyn rhoi sicrwydd i ni eu bod yn fforddiadwy.

Ymateb: Gwrthod

Diben cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yw annog awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar yr angen i ddod â'r cynnydd yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru o flwyddyn i flwyddyn i ben. Mae awdurdodau lleol yn cydnabod y pwysau cynyddol mae niferoedd uchel o blant mewn gofal yn ei roi ar wasanaethau. Mae cyflawni disgwyliadau o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi'i anelu at

newid y duedd a chydweithio â'n partneriaid llywodraeth leol er mwyn helpu i leddfu'r pwysau a sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio yn eu ffyrdd mwyaf effeithiol. Nid ydym wedi gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i gostio eu cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn benodol. Fel cyrff sy'n hunanlywodraethol ac yn atebol yn ddemocrataidd, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol yn statudol am reoli eu materion ariannol.

Darperir gwariant ar amrywiaeth o wasanaethau gwahanol, megis “Gwasanaethau cymdeithasol personol - plant a theuluoedd”, i Lywodraeth Cymru gan Awdurdodau Lleol yn flynyddol ac mae'r wybodaeth hon ar gael i bawb ar wefan lledaenu data Llywodraeth Cymru - StatsCymru.

Drwy ein trafodaethau ag awdurdodau lleol am ddatblygu cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, rydym wedi canolbwyntio ar y ffaith bod angen i awdurdodau lleol gael dealltwriaeth well o'u busnes gwasanaethau plant, gan gynnwys monitro perfformiad, gwerthuso gwelliannau, modelu a llif. Ein prif ddiben yw helpu i ailgydbwyso'r system a chefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant eu hunain. Mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen lleddfu'r pwysau ar wasanaethau plant a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar gyllidebau.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol ystyried mabwysiadu egwyddorion busnes er mwyn cyflawni canlyniadau gwell wrth gynllunio ar gyfer y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal a'r gwasanaeth a gânt yn y dyfodol. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ac mae awdurdodau lleol yn parhau i weithio ar hyn fel rhan o'u cymorth cyfoedion a'u dysgu. Bydd lleihau niferoedd y plant sydd mewn gofal a dod â phlant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir a thu allan i Gymru yn ôl yn agosach adref yn helpu i leddfu'r pwysau ar gyllidebau. Yna gellir ailfuddsoddi'r arian hwn i gefnogi canlyniadau gwell i blant yn y system gofal a gwell dulliau atal.

Argymhelliad 8. Bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn wyliadwrus o'r materion moesegol a allai godi wrth iddi fynd ati gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i archwilio'r defnydd o Fondiau Effaith Gymdeithasol i leihau mynediad i ofal.

Ymateb: Derbyn

Yn fuan byddwn yn edrych ar y modelau cyflawni gwahanol y gellid eu defnyddio i gyflawni'r fenter hon a byddai diddordeb arbennig gennym ym mhrofiadau pobl eraill sydd wedi rhoi'r model ar waith fel y gallwn adeiladu'r mesurau diogelu angenrheidiol yng Nghymru.Rydym yn derbyn yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor a byddwn yn ystyriol o'r materion moesegol wrth i ni ddatblygu'r model mwyaf addas i'w roi ar waith ar gyfer y cynllun peilot.

Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad manylach ar sut mae cymorth gydag iechyd emosiynol a meddyliol – gan gynnwys cymorth i atal hunanladdiad – ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn benodol yn cael ei ariannu yn 2020-21 a'i effaith yn cael ei fonitro.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn gallu cael gafael ar gymorth emosiynol ac iechyd meddwl priodol. Mae gwaith er mwyn helpu i sicrhau bod y cymorth hwn ar gael yn rhan annatod o'n rhaglen waith Gwella Canlyniadau i Blant.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo £500k ychwanegol y flwyddyn er mwyn mynd i'r afael â hunanladdiad a hunan-niwed, fel rhan o'r strategaeth atal hunanladdiad Siarad â Fi 2. Nodir plant sy'n derbyn gofal fel grŵp blaenoriaeth yn y strategaeth. Mae hyn yn cynnwys ariannu pedair swydd newydd er mwyn ysgogi'r gwaith hwn a chydgysylltu'r nifer o asiantaethau sydd â rôl i'w chwarae yn yr agenda hon. Er ein bod yn cymryd camau gweithredu penodol i atal hunanladdiad a hunan-niwed ledled Cymru, mae'n bwysig gweld y gwaith hwn yng nghyd-destun ein dull ehangach i wella gwasanaethau iechyd meddwl. Yn enwedig, ein camau gweithredu i wella gofal mewn argyfwng a mynediad i CAMHS.

Yn ein cyllideb ddrafft gwnaethom gyhoeddi £20 miliwn ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl a £500k ar gyfer y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan. Ynghyd â £2 filiwn ychwanegol o'r gyllideb addysg, bydd hyn yn cefnogi cymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys ymestyn cwnsela mewn ysgolion. Mae hyn yn ogystal â'r £2.5m sydd ar gael o HSS eleni mewn perthynas â'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan.

Mae'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl newydd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, yn adlewyrchu'r lefel uchel o flaenoriaeth a'r gwaith traws-Lywodraethol sydd eu hangen i wella iechyd meddwl a llesiant ein poblogaeth, gan gynnwys yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys cam gweithredu penodol (2.3 (iii)) ar gyfer y GIG i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn diwallu anghenion pobl ifanc a bod gwasanaethau yr un mor hygyrch i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n derbyn gofal neu sydd ar ffiniau gofal.

Bydd y Llif Gwaith newydd Help Cynnar a Chymorth Gwell Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i adeiladu ar waith y Dull Gweithredu Ysgol Gyfan drwy ddatblygu fframwaith system gyfan, sy'n cefnogi'r holl blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac yn cyflwyno cynigion ar gyfer arfer gorau a datblygu gwasanaethau. Bydd y cyllid £15m parhaus a ddyrennir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2020/21 drwy'r Gronfa Gofal Integredig yn parhau i anelu at gefnogi gwasanaethau therapiwtig i blant sydd eisoes yn y system gofal.

Mae cyrff sy'n darparu cymorth emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc hefyd yn rhan o'r sector cyhoeddus ehangach sydd â rôl rhianta corfforaethol i helpu i wneud yn siŵr bod plant sy'n derbyn gofal yn cael yr un gofal y byddai pob rhiant da am i'w plant ei gael. Felly, mae partneriaid iechyd wedi chwarae rôl bwysig yn ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Rianta Corfforaethol a ailsefydlwyd yn ddiweddar. Mae

adborth gan y Grŵp wedi llywio ein cynigion i ddiweddaru ac ymestyn ein fframweithiau rhianta corfforaethol deddfwriaethol a pholisi fel eu bod yn gymwys i amrywiaeth ehangach o gyrff cyhoeddus ac i ddatblygu siarter wirfoddol.

Bydd y rhaglen waith hon yn effeithiol wrth gryfhau, dyfnhau ac ehangu'r trefniadau presennol fel bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth gan eu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd. Yn fuan byddwn yn lansio ymgynghoriad rhianta corfforaethol ehangach ynglŷn â rôl cyrff cyhoeddus a phreifat o ran cefnogi canlyniadau gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu gwell ffyrdd o ddangos bod dewisiadau buddsoddi cyfredol fel y maent yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal yn effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Gwneir penderfyniadau buddsoddi ar sail tystiolaeth. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r nifer o ddarnau ymchwil amrywiol sydd wedi llywio penderfyniadau cyllid a dewisiadau polisi, yn enwedig mewn blynyddoedd diweddar. Gwyddom fod pwysau yn y system yn ymwneud â niferoedd y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai ar ffiniau gofal, darpariaeth gwasanaethau iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol a chymhwyso trefniadau cyfiawnder teuluol.

Mae'r holl adroddiadau canlynol yn darparu sail tystiolaeth sylweddol y mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn tynnu gwybodaeth ohoni er mwyn llunio ac arwain ei waith presennol ac yn y dyfodol: Cordis Bright yn 2013, Cadernid Meddwl gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Ebrill 2018, Adolygiad Argyfwng Gofal ym mis Mehefin 2018, Modelau Ariannu Arloesol i Ddiwallu Anghenion Gofal Cymdeithasol gan ADSS Cymru ym mis Ionawr 2019, Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Mawrth 2019, Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ym mis Hydref 2019, 'Born into Care' ym mis Hydref 2019 a Gwrando, Gweithredu, Ffynnu gan NSPCC Cymru a Voices from Care yn 2019.

Enghraifft bwysig o'r ffordd mae ymchwil wedi llywio penderfyniadau buddsoddi yw'r Gronfa Gofal Integredig £15m a gyfarwyddwyd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi gwasanaethau i blant a phobl ifanc ar ffiniau gofal gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o Adroddiad Blynyddol y Gronfa Gofal Integredig a gyhoeddwyd yn ddiweddar (https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-cronfa-gofal-integredig-cymru-2018-i-2019 / https://gov.wales/wales-integrated-care-fund-icf-annual-report-2018-2019) sy'n darparu mwy o fanylion ond mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- Yng Nghaerdydd, mae'r **Prosiect Ailuno Teuluoedd** wedi gweithio gyda 14 o deuluoedd ac o ganlyniad, llwyddwyd i gadw 17 o blant mewn lleoliad teulu.
- Yng Ngwent, mae'r **Gwasanaeth Cynadledda Grŵp Teuluol** wedi cael 112 o atgyfeiriadau hyd yma, gyda thua 40 o deuluoedd yn cwblhau'r Cynadledda Grŵp Teuluol. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y teuluoedd a oedd yn cael

cymorth, yn cadarnhau bod eu hanghenion wedi cael eu diwallu. Gwnaethom wyro 55% o blant o ofal. Hefyd yng Ngwent, cafodd 83% o bobl ifanc a oedd yn defnyddio'r **Gwasanaeth Cymorth Cyfryngu** eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teulu a chafodd 17% o bobl ifanc eu cefnogi i fyw'n annibynnol.

- Yng Ngogledd Cymru, cefnogodd y **Gweithiwr Dwys Cam-drin Domestig** 62 o deuluoedd a 319 o blant. Nododd 64% o deuluoedd fwy o gadernid a llesiant gwell.
- Ym Mhowys, mae 63 o deuluoedd wedi cael eu hatgyfeirio at ei **Brosiect Plant ar Ffiniau Gofal** sydd hefyd wedi arwain at nifer llai o blant yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant ac yn dilyn atgyfeiriad at wasanaethau Ffiniau Gofal, mae 97% o blant wedi aros gartref.
- Ym Mae'r Gorllewin, mae'r Gwasanaeth Cefnogi Lleoliadau Amlasiantaeth wedi gweithio gyda 64 o aelwydydd plant a gofalwyr maeth. O'r rhain, cafodd 43 eu dyrannu i weithiwr cymdeithasol ymgynghorol; mae 21 yn cael cymorth therapiwtig uniongyrchol; mae 15 yn cael ymyrraeth uniongyrchol gan seicolegydd; ac mae 25 yn cael cymorth gan y gweithwyr teulu/addysg (sy'n cynnwys cymorth uniongyrchol i ysgolion)

Argymhelliad 11. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu:

(a) amlinelliad mwy cynhwysfawr o'r canlyniadau a ddisgwylir o'r buddsoddiad yn Chwarae Cymru a Cymru Ifanc a sut mae hyn yn cael ei fonitro; a

(b) sicrwydd ynghylch sut mae effaith peidio ag ariannu gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol trwy Grant Gwasanaethau Cynaliadwy'r Trydydd Sector (e.e. yn achos Adoption UK Cymru) wedi cael ei mesur ac y bydd yn cael ei liniaru.

Ymateb: Derbyn

(a) Chwarae Cymru

Yn dilyn ymddangosiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Pwyllgor, ysgrifennodd atoch gyda mwy o wybodaeth am y cyllid rydym yn ei ddarparu i Chwarae Cymru a'n disgwyliadau. Mae'r cyllid a ddarperir i Chwarae Cymru yn ei alluogi yn benodol i gyflawni yn erbyn pedwar amcan craidd sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni profiadau chwarae o ansawdd uchel:

- llywio datblygiad polisi a materion sy'n ymwneud â chwarae plant yng Nghymru
- hyrwyddo gwerth chwarae plant yng Nghymru
- darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol ar chwarae plant
- cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru

Mae Chwarae Cymru yn cyflawni nifer o ganlyniadau yn erbyn yr amcanion hyn. Yn ogystal â chefnogi lleoliadau chwarae ledled Cymru, cynyddu darpariaeth cyfleoedd chwarae a gwella hyfforddiant a chymwysterau'r gweithlu chwarae, mae Chwarae Cymru hefyd yn ymgymryd â nifer o gamau gweithredu strategol ar ein rhan. Mae'n cwblhau adolygiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a arweinir gan awdurdodau lleol a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig, gan helpu i fesur perfformiad yn erbyn rhwymedigaethau statudol. Mae'n aelod craidd o'r Adolygiad Chwarae Gweinidogol

ac mae'n allweddol o ran hyrwyddo Cymru a'n hymrwymiad i chwarae ar lwyfan rhyngwladol.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu copi o'r llythyr grant ar gyfer 2019-20 yn flaenorol. Mae copi o Gynllun Gweithredu Chwarae Cymru ar gael yma:
https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A28695206/document/versions/published

Cefndir

Mae £360,000 wedi cael ei ddyrannu i Chwarae Cymru yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21. Fel y wlad gyntaf yn y byd i gorffori'r hawl i chwarae mewn deddfwriaeth, caiff Cymru ei hystyried yn arweinydd byd yn y maes hwn. Mae'r cyllid a ddarperir i Chwarae Cymru yn ei alluogi i gefnogi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau chwarae i gynllunio a chyflwyno cyfleoedd chwarae gwell i blant. Mae hefyd yn ein galluogi i rannu ein profiadau a dysgu o brofiadau gwledydd eraill o ystyried y statws rhyngwladol sydd gan Chwarae Cymru.

Amcanion

Effaith a chanlyniadau

- Mae Chwarae Cymru yn llunio ac yn cyhoeddi adroddiad effaith blynyddol sy'n disgrifio'r canlyniadau a'r cyflawniadau ar gyfer y flwyddyn. Mae'r adroddiad diweddaraf ar gyfer 2018-19 wedi cael ei gyhoeddi ac mae ar gael yn https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/adroddiadeffaith
- Yn 2018-19 roedd 93 o aelodau Chwarae Cymru, 135,000 o ymwelwyr â'r wefan, dosbarthwyd 3,500 o lyfrau stori hawl i chwarae ledled Cymru a chofrestrodd 3,350 o unigolion neu sefydliadau ar gyfer diweddariadau rheolaidd. Cyhoeddodd Chwarae Cymru 13 o gyhoeddiadau a chyflwynodd gymwysterau gwaith chwarae i fwy na 300 o ddysgwyr.
- Adolygodd Chwarae Cymru 22 o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae Awdurdodau Lleol 2019 a nododd themâu allweddol ar gyfer gwaith yn y dyfodol o'r rhain.
- Mae Chwarae Cymru yn rhanddeiliad allweddol yn yr Adolygiad Chwarae Gweinidogol a lansiwyd ym mis Medi 2019 a disgwylir adroddiad ar ddiwedd 2020. Mae wedi bod yn allweddol o ran hwyluso mewnbwn sefydliadau allweddol ac academyddion annibynnol i'r adolygiad.
- Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Chwarae Cymru i archwilio yr hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i ddechrau'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae yn 2012 yn llywio'r Adolygiad Chwarae.
- Mae Chwarae Cymru yn hwyluso cyfarfodydd rhwydwaith Digonolrwydd Chwarae chwarterol mewn 3 lleoliad yng Nghymru i godi materion allweddol, darparu cymorth ac annog rhannu arfer dda.
- Mae Cadeirydd Chwarae Cymru yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru sy'n darparu'r cyngor a'r arweiniad sy'n ofynnol ar hyfforddiant a chymwysterau yn y sector gwaith chwarae i Skills Active.
- Mae'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fanteision chwarae i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol.

- Datblygwyd a lansiwyd yr ymgyrch a'r wefan *Plentyndod Chwareus* sydd wedi'u hanelu at rieni a gweithwyr proffesiynol, gan ddarparu syniadau ymarferol ar gyfer cyfleoedd chwarae.
- Roedd yn rhan o'r trafodaethau am derfyn cyflymder 20mya cenedlaethol.
- Mae Chwarae Cymru wedi cael Marc Ansawdd Lefel 1 PQASSO. Felly mae Chwarae Cymru wedi llwyddo i ddangos rhinweddau megis llywodraethu effeithiol a chyfrifol, rheolaeth ariannol gadarn a meithrin cydberthnasau da â sefydliadau eraill.

Trefniadau grant

Mae Llywodraeth Cymru a Chwarae Cymru yn cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer pob blwyddyn. Telir y grant yn chwarterol yn dilyn adolygiad gyda Chwarae Cymru o gynnydd tuag at amcanion.

Rhagor o wybodaeth

Llythyr cynnig grant wedi'i lofnodi ar gyfer 2019-20

https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A25749272/document/versions/published
Mae'r llythyr cynnig grant ar gyfer 2020-21 yn cael ei gyflwyno ar ôl cytuno ar y gyllideb derfynol. Nid ydym yn disgwyl unrhyw wahaniaethau mawr yn y llythyr cynnig grant ar gyfer 2020-21.

Canlyniadau gan Cymru Ifanc

Mae gwaith Cymru Ifanc yn cefnogi'r canlyniadau allweddol canlynol. Mae'n galluogi plant a phobl ifanc i wneud y canlynol:
- deall ac ymgysylltu â'r gwaith o ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer a'u datblygu (Erthygl 12 o'r CCUHP);
- datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth ymgysylltu â llunwyr polisi ac ymarferwyr a dylanwadu arnynt yn unol â Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl Ifanc Cymru;
- cael budd o bolisïau ac ymarfer gwell sydd wedi cael eu llywio gan Blant a Phobl Ifanc.

Monitro Cymru Ifanc

- Mae'n ofynnol i Plant yng Nghymru gyflwyno adroddiadau cynnydd a gwariant chwarterol i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith Cymru Ifanc wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau hyn.
- Mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda Phrif Weithredwr Plant yng Nghymru a staff perthnasol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar gynnydd yn erbyn y cynllun gwaith y cytunwyd arno ac yn cynnwys craffu ar wariant.
- Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd Plant yng Nghymru yn chwarterol er mwyn trafod ei waith, gan gynnwys gwaith Cymru Ifanc.

(b) Grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Mae'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2020-23 yn un elfen o'r cyllid o fwy na £80m sydd ar gael i gefnogi gweithgarwch sy'n cefnogi blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Roedd y Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2020-23 yn boblogaidd iawn, ac nid oedd digon o gyllid i fodloni'r holl geisiadau, ac ar ôl cytuno ar £1.2m o gyllid ychwanegol yn 2020-21 yn erbyn y £7m a oedd ar gael i ddechrau, cymeradwywyd cyfanswm o 32 o geisiadau i gael cyllid.

Bydd y 32 o brosiectau a ariennir drwy'r grant hwn yn cefnogi gofalwyr, plant a phobl ifanc, pobl ag anableddau corfforol neu synhwyraidd, pobl ag anableddau dysgu a phobl hŷn. Roedd y ceisiadau sydd wedi cael eu hariannu yn darparu'r dystiolaeth gryfaf o brosiectau a fydd yn cefnogi blaenoriaethau craidd y llywodraeth ac yn dosbarthu ar draws meysydd gwasanaeth.

Lle nad yw gweithgareddau penodol a ariannwyd drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy 2019-20 wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau ar gyfer grant 2020-23, mae'r gweithgareddau hyn wedi cael eu hystyried ar sail unigol fesul achos, a lle mae Gweinidogion yn ystyried eu bod yn hanfodol er mwyn cyflawni'r agenda Gofal Cymdeithasol, mae cymorth amgen wedi cael ei nodi.

Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth tlodi plant wedi'i diweddaru i roi cyfeiriad i'r ysgogiadau o fewn ei phwerau i leihau effaith tlodi plant. Dylai'r strategaeth hon gael ei datblygu mewn ffordd sy'n galluogi cyllidebau drafft yn y dyfodol i adlewyrchu'n glir y dyraniadau sydd ar gael i wella canlyniadau yn hyn o beth.

Ymateb: Gwrthod

Gosododd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu strategaeth tlodi plant i Gymru. Mae ein strategaeth gyfredol ar dlodi plant, yn pennu amcanion strategol ar gyfer gwella canlyniadau aelwydydd incwm isel.

Ym mis Rhagfyr y llynedd adolygwyd ein Strategaeth Tlodi Plant gyfredol. Mae'r amcanion ynddi yn parhau i adlewyrchu'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gyflawni ein dyletswydd statudol i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym ynglŷn â lle y gallwn gael yr effaith fwyaf o ran gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel.

Manteisiwyd ar y cyfle ym mis Rhagfyr i gyhoeddi atodiad i Adroddiad Cynnydd Tlodi Plant 2019. Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi manylion rhaglenni Llywodraeth Cymru sydd wedi'u hanelu at drechu tlodi https://llyw.cymru/strategaeth-tlodi-plant-adroddiad-cynnydd

Mae'r Pwyllgor yn dweud yn ei adroddiad mai yng Nghymru y mae'r gyfradd uchaf o dlodi plant yn y DU, sef 29 y cant. Mae hyn yn anghywir. Mae'r data HBAI

diweddaraf, a gynhyrchwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019, yn dangos bod tlodi plant yn Lloegr yn uwch nag yng Nghymru, sef 31 y cant. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw cyfradd tlodi plant o 29 y cant yn dderbyniol.

Rydym yn edrych eto ar bopeth rydym yn ei wneud fel Llywodraeth – ein gweithgareddau, ein polisïau a'n blaenoriaethau – er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud *popeth* o fewn ein pwerau i gefnogi aelwydydd incwm isel.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod tlodi wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth yn y broses o gynllunio cyllideb ar gyfer 2020-21. Mae hyn wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol yn targedu'r rhaglenni hynny sydd â hanes llwyddiannus o wneud gwahaniaeth i fywydau plant sy'n byw mewn tlodi.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi bron £1bn mewn amrywiaeth eang o fesurau sy'n helpu i wella canlyniadau i aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol o fwy na £19m yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 mewn pecyn o fesurau sydd wedi'i dargedu'n benodol i helpu rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn cefnogi mentrau sy'n cadw arian ym mhocedi pobl a gwasanaethau sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd difreintiedig.

Bydd yr adolygiad o'n rhaglenni yn helpu i lywio sut rydym yn blaenoriaethu ein cyllid i gefnogi rhaglenni yn y dyfodol.

ARGYMHELLION ADDYSG (ADRAN 4)

Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu datganiadau blynyddol i'r Cynulliad sy'n dangos y dystiolaeth a argyhoeddodd Gweinidogion Cymru fod llywodraeth leol yn blaenoriaethu cyllid ysgolion, a sut mae hyn yn cael ei fonitro.

Ymateb: Gwrthod

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol etholedig yw gwariant Awdurdodau Lleol ar ysgolion; caiff ei ariannu drwy gymysgedd o dreth gyngor, adnoddau Cyngor eraill, grant Llywodraeth Cymru a chyfraddau annomestig a ailddosbarthwyd. Caiff lefel y gwariant ei dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau cenedlaethol a lleol gan gynnwys ymateb i ddewisiadau lleol o ran sut y darperir y gwasanaeth.Er na fyddai'n iawn awgrymu y dylai nac y gallai Gweinidogion Cymru ddiystyru penderfyniadau cyngor lleol unigol ar ei gyllideb, mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth am wariant cynghorau ar wasanaethau ysgolion fel rhan o gyfres o wybodaeth ar gyllid, cyllidebu a gwariant awdurdodau lleol a gwariant a chronfeydd wrth gefn ysgolion.

Mae Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn ddarostyngedig i fframwaith rheoleiddio ac arolygu i sicrhau eu bod yn bodloni eu dyletswyddau statudol. Er nad yw hyn yn ymestyn i reolaethau ar lefel cyllid ysgolion, y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdano, mae Llywodraeth Cymru yn trafod lefel gyffredinol cyllid awdurdodau lleol, a chyllid addysg ysgolion, yn rheolaidd ac yn aml drwy gynrychiolaeth etholedig Llywodraeth Leol ar Is-grŵp Cyllid y Cyngor Partneriaeth. Trafododd yr Is-grŵp Cyllid

gyllid ysgolion yn benodol fel rhan o'n trafodaethau blynyddol ar y gyllideb, yn ogystal â chyllid cyffredinol gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid grant heb ei neilltuo a phenodol, fel y gellir cael tystiolaeth o'r pwysau ar awdurdodau lleol mewn amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys ysgolion. Cyhoeddir y cofnodion ar gyfer y grŵp hwn ar wefan Llywodraeth Cymru. Cynyddodd y cyllid heb ei neilltuo ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer 2020-21 £184m ar sail gyfatebol dros y flwyddyn ariannol hon gan adlewyrchu'r pwysau a nodwyd sy'n codi o gostau cyflog a phensiynau athrawon yn benodol, sef yr elfen fwyaf sylweddol o wariant ysgolion awdurdodau lleol.

Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i flaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg yn 2020-21 o unrhyw gyllid canlyniadol Barnett a geir gan Lywodraeth y DU y gellir ei briodoli i godiadau mewn gwariant ar addysg yn Lloegr.

Ymateb: Gwrthod

Un o egwyddorion pwysig datganoli yw na chaiff y cyllid y mae Cymru yn ei gael o ganlyniad i fesurau gwariant a gyhoeddir yn Lloegr ei glustnodi at ddibenion penodol. Yn seiliedig ar arfer sefydledig, caiff penderfyniadau ynghylch sut y dyrennir unrhyw gyllid newydd eu gwneud gan y Cabinet fel rhan o'r broses o gynllunio'r Gyllideb yn unol â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hynny mae Gweinidogion unigol yn gwneud penderfyniadau am sut y dyrennir cyllidebau yn eu portffolio.

Wrth ddiogelu'r egwyddor bwysig hon, rydym yn cydnabod ysbryd yr argymhelliad i flaenoriaethu gwariant ar addysg. Mae darparu'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, sy'n darparu cyllid craidd i awdurdodau lleol ar gyfer addysg, wedi bod yn ganolog i'n paratoadau cyllidebol ar gyfer 2020-21. Mae'r ychwanegiadau i'r setliad llywodraeth leol a chyllid newydd arall ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol yn dod i gyfanswm o fwy na £220m yn 2020-21, sy'n fwy na'r cyllid canlyniadol Barnett a gafwyd gan Gylch Gwariant Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cyllid ysgolion (tua £150m) a gofal cymdeithasol (tua £59m) yn Lloegr. Rydym hefyd wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg o fewn y MEG Addysg gyda chynnydd mewn adnoddau o £57.8m, gan greu cyllideb o £1.567bn ar gyfer 2020-21.

Gall ein setliad ar gyfer 2020-21 newid eto yn dilyn Cyllideb y DU, a gyhoeddir ar 11 Mawrth. Caiff y goblygiadau cyllid ar gyfer ein Cyllideb y tu hwnt i 2020-21 eu pennu fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant nesaf Llywodraeth y DU y bwriedir ei gynnal yn hwyrach eleni.

Argymhelliad 15. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu crynodeb o'r camau y mae'n eu cymryd i fireinio costau ADY a ragwelir yn y dyfodol a sut y mae'n ei sicrhau ei hun a'r sector eu bod wedi'u costio ac yn fforddiadwy.

Ymateb: Derbyn

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf) a'r Rhaglen Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ehangach wedi'u nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a oedd yn

ategu'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad ac yn dilyn hynny cymeradwywyd ei gasgliadau gan y Cynulliad drwy gymeradwyo'r penderfyniad ariannol sy'n ymwneud â'r Bil.

Mae'r rhan fwyaf o'r costau sy'n ymwneud â'r systemau presennol yn ymwneud â chreu darpariaeth i ddiwallu anghenion. Nid yw'r Ddeddf na'r Cod ADY yn cynyddu angen, nac yn ei gwneud yn ofynnol creu mwy o ddarpariaeth.

Bwriedir i'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â phontio o'r systemau presennol i'r system newydd gael eu cwmpasu gan yr £20m o arian ychwanegol rydym yn ei fuddsoddi i hwyluso ein rhaglen drawsnewid ADY.

Bydd memoranda esboniadol, gan gynnwys asesiadau effaith rheoleiddiol, yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cod ADY a bydd rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Ddeddf a fydd yn archwilio unrhyw oblygiadau penodol o ran cyllid.

Mewn ymateb i bryderon sydd wedi cael eu mynegi gan y sector, rydym wedi dechrau deialog yn ddiweddar gyda Chyfarwyddwyr Addysg, Addysg Bellach, ac Arweinwyr Trawsnewid ADY.

Argymhelliad 16. Bod Llywodraeth Cymru, fel y gofynnwyd amdano yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cod Drafft ADY, yn gwneud datganiad clir:

▪ bod rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y system bresennol; a

▪ bod rhaid peidio â lleihau'r trothwy sy'n berthnasol i nodi ADY o dan y system newydd, ar sail cost.

Ymateb: Derbyn

Cyn rhoi'r system ADY ar waith, mae'n rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ysgolion sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, yn unol â'u rhwymedigaethau statudol presennol. Mae'r Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ysgolion i ailbwysleisio'r pwynt hwn.

Ni fydd y system ADY newydd yn effeithio ar y trothwy ar gyfer cymorth dysgu ychwanegol ar unrhyw sail. Yn hytrach, bydd yn helpu i sicrhau bod y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar blant a phobl ifanc i ddiwallu eu hanghenion yn cael ei gynllunio a'i warchod yn briodol.Bydd yn sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd ei botensial drwy ymagwedd at addysg sy'n gynhwysol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n galluogi pob dysgwr i ffynnu ni waeth beth yw ei allu.

Argymhelliad 17. Bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau:

▪ faint o gyllid canlyniadol Barnett ar gyfer 2020-21 y mae wedi'i gael gan Lywodraeth y DU y gellir ei briodoli i godiadau mewn gwariant ar Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND) yn Lloegr; a

▪ sut y dangosir hyn ym MEG Addysg 2020-21 a'r MEG Tai a Llywodraeth Leol (Setliad Llywodraeth Leol) yn eu tro.

Ymateb: Derbyn

Mewn Adolygiadau o Wariant rydym ond yn derbyn cyllid canlyniadol o ganlyniad i'r newid net i gyllideb DEL gyffredinol pob adran o fewn llywodraeth y DU. Felly, yn gyffredinol nid yw'n bosibl cysylltu ein newidiadau Barnett â chyhoeddiadau polisi unigol. Ystyriaeth allweddol arall yw bod ein sefyllfa net cyffredinol yn cynnwys gostyngiadau yn ogystal â chynnydd. Roedd Cylch Gwariant 2019 yn cynnwys cynnydd o £700m a gyhoeddwyd mewn cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn Lloegr rhwng 2019-20 a 2020-21. Mae ystyried y mesur hwn ar ei ben ei hun yn awgrymu bod Cymru wedi cael cyllid canlyniadol o £41m yn 2020-21. Fodd bynnag, roedd setliad y Cylch Gwariant ar gyfer Cymru yn cynnwys cyllid canlyniadol negyddol yn ogystal â chyllid canlyniadol cadarnhaol. Yn benodol, roedd yn cynnwys addasiad negyddol ar gyfer cynnydd yn lefel y gwariant yn Lloegr a ariennir gan ardrethi annomestig. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn neilltuo rhannau o'r setliad cyffredinol i gyhoeddiadau unigol yn Lloegr.

Mae'r setliad llywodraeth leol, drwy'r MEG Tai a Llywodraeth Leol, yn darparu'r cyllid craidd i ysgolion i gefnogi plant ag ADY. Fel yr amlinellir o dan argymhelliad 14, mae'r ychwanegiadau i'r setliad llywodraeth leol a chyllid newydd arall ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol yn dod i gyfanswm o fwy na £220m yn 2020-21 - mae hyn yn fwy na'r hyn a gawsom yn y Cylch Gwariant mewn perthynas ag elfen ysgolion y cyllid canlyniadol (tua £150m o £196m) a chyllid gofal cymdeithasol (tua £59m) yn Lloegr. O'r £220m, mae'r MEG Addysg wedi buddsoddi £8m yn 2020-21 er mwyn helpu i leihau pwysau cyllidebol sy'n gysylltiedig â dysgwyr â lefelau uwch o anghenion.

Argymhelliad 18. Bod Llywodraeth Cymru yn dychwelyd at bennu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ysgolion yn ôl y data diweddaraf ar nifer eu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, lle mae hyn yn uwch na ffigurau Ionawr 2016 a ddefnyddiwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod yn llawn pa mor bwysig yw'r Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion ac rydym am fod yn fodlon ein bod yn bwrw ymlaen ar sail y model mwyaf effeithiol a theg, gan sicrhau bod ysgolion yn cael y dyraniad gorau posibl yn yr amlen gyllido sydd ar gael.

Ar gyfer 2020-21 rydym yn edrych ar nifer o opsiynau, gan ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyflwyno Credyd Cynhwysol a Diogelwch Trosiannol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Rydym yn gweithio ar yr opsiynau hyn o hyd yn fewnol gyda'n

hystadegwyr a chyd-weithwyr llywodraeth leol a byddwn yn gwneud cyhoeddiad am ddyraniadau maes o law.

Argymhelliad 19. Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu lefelau pob agwedd ar gyllid perthnasol i gefnogi diwygio'r cwricwlwm yn gyson—boed yn ddysgu proffesiynol athrawon, dylunio'r cwricwlwm neu ddiwygio cymwysterau—i sicrhau eu bod yn ddigonol i gyflawni a chefnogi'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Caiff yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer bil y cwricwlwm ei gyhoeddi maes o law a bydd yn nodi'r costau sy'n gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod diwygio'r cwricwlwm yn gymhleth a bod angen adolygu'r meysydd a nodwyd – dysgu proffesiynol, dylunio'r cwricwlwm a diwygio cymwysterau – yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol a'u gweithredu'n effeithiol.

Argymhelliad 20. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar ddyraniadau manwl o fewn y Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 unwaith y byddant wedi cael eu cytuno a'u cwblhau.

Ymateb: Derbyn

Disgrifiad o'r Rhaglen a Ariennir	2020-21 £000
Buddsoddi Mewn Ansawdd	591
Llyw Addysg Bellach a Strategaeth Addysg Uwch	60
Sefydliad Dysgu a Gwaith	450
Dysgu yn y Gymuned	4,913
Addysg Bellach	350,837
Chweched Dosbarth	95,722
Cyfrifon Dysgu Personol	2,000
JISC	1,591
Erasmus	220
Rhwydwaith Seren	1,942
Iechyd Meddwl	2,000
Cyfanswm	460,326

Mae'r tabl uchod yn rhoi trosolwg o BEL Darpariaeth Addysg Bellach (Cam Gweithredu Addysg Ôl-16). Mae'r ffigurau hyn yn ddarostyngedig i ddiwygiadau mân drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i weithgarwch adhawlio posibl a throsglwyddiadau nad ydynt yn hollol hysbys ar y pwynt hwn.

Argymhelliad 21. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau Difidend Diamond dangosol wedi'u diweddaru sy'n dangos cyfanswm amcanol y Difidend a'r swm rhagamcanol sy'n dod ar gael bob blwyddyn yn ystod y broses weithredu barhaus.

Ymateb: Derbyn

Mae'r dyraniad cyllid arfaethedig a ragwelir ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi'i gynnwys yn y tabl isod.

	2021-22	2022-23
Dyraniad cyllid CCAUC	£179m	£190m

Ffynhonnell: Is-adran Addysg Uwch

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl rhagweld yn gywir faint o gyllid ychwanegol fydd ar gael o ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond. Mae'r lefelau cyllid dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf yn ystyried rhagdybiaethau rhagamcanol ar nifer mawr o ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb unrhyw flwyddyn. Er bod yr amrywiadau yn canolbwyntio ar faint o gymorth fydd ar gael ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, gall y symiau unigol amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ffactorau megis myfyrwyr sy'n ymuno â'r system, cyfraddau chwyddiant, newidynnau eraill y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gan gynnwys cynnydd chwyddiannol mewn cymorth ac incwm y cartref, sydd yn ei dro yn effeithio ar falans grantiau/benthyciadau cymorth cynhaliaeth ynghyd â symiau ad-dalu.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ragolygon o'n modelau rhagweld cymorth i fyfyrwyr, gan ddefnyddio data a oedd ar gael ar y pryd. Ar hyn o bryd dim ond cyllideb refeniw ddrafft sydd gennym ar gyfer 2020-21, y cyfnod y mae gennym setliad cyllid gan Lywodraeth y DU ar ei gyfer. Nid oes unrhyw gyllidebau wedi'u cyhoeddi y tu hwnt i 2020-21, felly bydd unrhyw gyllid arfaethedig y tu hwnt i 2020-21 yn ddibynnol ar gyllidebau sydd ar gael a bydd angen ei flaenoriaethu o fewn y MEG Addysg unwaith y bydd dyraniadau dangosol ar gael. Yn ogystal â hyn, bydd angen ystyried unrhyw gyllid y tu hwnt i 2020-21 yng nghyd-destun yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Argymhelliad 22. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi beth fyddai'r costau i bwrs y wlad yn ystod tymor presennol y Cynulliad pe bai'r grantiau cynhaliaeth Diamond yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant yn hytrach na chynyddu'r benthyciad cynhaliaeth.

Ymateb: Derbyn

Mae'r tabl canlynol yn dangos costau sylfaenol grantiau cynhaliaeth Diamond (grant cyfraniad Meistr myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig amser llawn a rhan amser). Ar hyn o bryd mae symiau a throthwyon y grant cynhaliaeth wedi'u gwastatáu tan 2020-21 (2022-23 ar gyfer y grant cyfraniad Meistr ôl-raddedig), gan gynyddu yn ôl chwyddiant wedi hynny. Mae ail linell y tabl yn dangos y cynnydd mewn costau petai chwyddiant yn cael ei gymhwyso o 2020-21 ymlaen, ar gyfer pob cynnyrch. Byddai hyn yn arwain at gynnydd o £6m ar gyfer 2020-21, gan godi i £8.7m yn 2021-22 a 2022-23 a £9.2m yn 2023-24.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ragolygon o'n modelau rhagweld cymorth i fyfyrwyr, gan ddefnyddio data a oedd ar gael ar y pryd. Cyfrifir costau a ragwelir ar gyfer y grantiau cynhaliaeth gan ddefnyddio niferoedd myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru o'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r grantiau cyfartalog disgwyliedig. Mae'r grantiau cyfartalog yn deillio o incwm gweddilliol aelwydydd, a ddarperir ar ffurflenni cais myfyrwyr i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Rhagweld cost grantiau cynhaliaeth Diamond[(a)]

Costau blwyddyn ariannol

Cyffredinol	**2019-20**	**2020-21**	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**
Sylfaenol[(b)]	£228.9m	£271.2m	£297.3m	£314.8m	£331.1m
Cynnydd chwyddiannol cynt[(c)]	£228.9m	£277.2m	£306.1m	£323.6m	£340.3m
Gwahaniaeth	***£0.0m***	***£6.0m***	***£8.7m***	***£8.7m***	***£9.2m***

Ffynhonnell: Is-adran Addysg Uwch

(a) Yn cynnwys grant cynhaliaeth FTUG, grant cynhaliaeth PTUG a grant cyfraniad Meistr Ôl-raddedig a addysgir
(b) Cynnydd chwyddiannol a gymhwysir o 2021-22 ymlaen (2022-23 ar gyfer PTUG)
(c) Cynnydd chwyddiannol a gymhwysir o 2020-21 ymlaen

Argymhelliad 23. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi pam nad yw'r trosglwyddiad llawn o £12 miliwn y mae ei angen i gyflawni ei hymrwymiad ynglŷn â phrentisiaethau lefel gradd wedi'i gynnwys yn ei Chyllideb Ddrafft 2020-21 ond y bydd yn dilyn yn hytrach mewn cyllideb atodol.

Ymateb: Derbyn

O'r ymrwymiad o £12m, mae £5m eisoes o fewn dyraniad cyllideb drafft CCAUC. Roedd trafodaethau yn parhau rhwng dau faes portffolio o ran o ble y byddai gweddill y £7m yn dod. Oherwydd amseru hyn, ni ddyrannwyd y £7m ychwanegol cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Caiff ei drosglwyddo fel rhan o'r broses gyllidebu atodol yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2020-21 o'r MEG Economi a Thrafnidiaeth.

Argymhelliad 24. Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu:

▪ y dirwedd fel y mae'n ymwneud â phensiynau yn y sector addysg uwch o ran pwerau a chyfrifoldebau Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU a rôl sefydliadau addysg uwch eu hunain;

▪ y camau y mae wedi'u cymryd i fonitro'r modd y mae'r sector yn rheoli'r risgiau i'w gynaliadwyedd a grëir gan ansicrwydd pensiynau;

▪ ei hasesiad o effaith bosibl y risgiau hyn i'r sector a'r tu hwnt; a hefyd

▪ y camau y mae wedi'u cymryd mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Ymateb: Derbyn

Gan fod sefydliadau addysg uwch yn gyrff hunanlywodraethol, y sefydliadau eu hunain sy'n gyfrifol am faterion ariannol a chyflogaeth, gan gynnwys pensiynau. Fel y cyfryw, ni all Gweinidogion Cymru na CCAUC chwarae unrhyw rôl ffurfiol mewn negodiadau ledled y DU. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CCAUC a Phrifysgolion Cymru i fonitro'r sefyllfa ac unrhyw negodiadau a all godi yn y dyfodol.

Mae CCAUC wedi llunio blog a nodyn esboniadol ar pam y mae cymaint o sefydliadau Addysg Uwch yn dangos diffyg ariannol. Mae blog CCAUC yn nodi nad yw'r diffyg mawr a nodwyd yn natganiadau ariannol 2018/19 llawer o sefydliadau yng Nghymru yn adlewyrchu problem sylweddol yn eu perfformiad gweithredu, ond ei fod yn deillio'n bennaf o daliadau pensiwn untro ar gyfer costau i'w talu yn y dyfodol y mae'n rhaid eu hadlewyrchu fel costau gweithredu mewn datganiadau ariannol.

Mae'r taliadau pensiwn hyn yn effeithio ar lawer o sefydliadau Addysg Uwch y DU yn 2018/19 ac nid ydynt yn unigryw i sefydliadau yng Nghymru.Er y caiff y taliadau arian parod ar gyfer y cyfraniadau lleihau diffyg pensiynau eu hymestyn dros y 10 mlynedd nesaf o leiaf, mae'r ffordd y mae'n rhaid cyflwyno'r costau hyn mewn datganiadau ariannol (yng nghyfrifon 'incwm a gwariant' sefydliadau Addysg Uwch) yn golygu bod y cynnydd yn y ddarpariaeth diffyg pensiynau yn cael ei ddangos fel cost gweithredu sylweddol yn 2018/19.

Argymhelliad 25. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n ei sicrhau ei hun:

▪ bod sefydliadau addysg uwch benthyca mewn modd darbodus a chynaliadwy;

▪ bod gan gyrff llywodraethu y gallu i oruchwylio a chraffu ar eu hymrwymiadau, a'u bod yn gwneud hynny'n effeithiol.

Ymateb: Derbyn

Mae angen i sefydliadau fuddsoddi yn eu hystadau, eu cyfleusterau a'u seilwaith er mwyn parhau i fod yn gystadleuol ym marchnad y DU a'r farchnad fyd-eang. Nid yw benthyg, ynddo'i hun, yn broblem ar yr amod y gwneir y benthyciad er mwyn cefnogi buddsoddiad, ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol sefydliadau a'i fod yn fforddiadwy.

Mae gan CCAUC God Rheoli Ariannol ar waith gyda Chyrff Llywodraethu yr holl sefydliadau Addysg Uwch rheoledig yng Nghymru sy'n cadarnhau'r gofynion ar gyfer trefnu a rheoli eu materion ariannol. Nod y Cod yw sicrhau bod sefydliadau rheoledig yn cael eu rhedeg yn dda, bod ganddynt drefniadau rheoli ariannol effeithiol a'u bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Fel y rheoleiddiwr yng Nghymru, mae CCAUC yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cod ac mae ganddo fesurau ar waith ar gyfer ymyrryd lle ceir methiant i gydymffurfio. Mae'r mesurau hyn yn amddiffyn buddiannau myfyrwyr, yn diogelu cronfeydd cyhoeddus ac yn amddiffyn enw da addysg uwch yng Nghymru.

Yn ogystal, er mwyn cael cynllun ffioedd a mynediad blynyddol cymeradwy, mae angen i Sefydliad Addysg Uwch rheoledig yng Nghymru gadarnhau bod ei sefydliad yn wynebu risg isel o fethiant ar sail ariannol dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Rydym yn falch bod Cadeiryddion, Is-Gadeiryddion, CCAUC ac undebau wedi gallu ymateb yn gadarnhaol i adolygiad Gillian Camm. Mae ein prifysgolion yn stiwardiaid pwysig o le ac ansawdd; mae llywodraethu atebol a thryloyw yn hanfodol er mwyn cyflawni'r genhadaeth ddinesig hon yn lleol ac yn genedlaethol. Edrychwn ymlaen at weld y siarter yn datblygu.

Argymhelliad 26. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi pa waith dadansoddi y mae hi—neu CCAUC ar ei rhan—wedi'i wneud ar gynaliadwyedd benthyca o fewn y sector.

Ymateb: Derbyn

Mae Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn parhau i wynebu nifer o heriau ledled y sector, ond, yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, mae CCAUC wedi ein hysbysu nad yw'n gweld achos pryder o ran argyfyngau ariannol tymor byr.

Mae CCAUC drwy ei drefniadau rheoli risg sefydliadol, yn cynnal goruchwyliaeth o fenthyg sefydliadol ac yn chwarae rôl o ran monitro unrhyw fenthyciadau newydd. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi cyrff llywodraethu prifysgolion i sicrhau eu hunain, a CCAUC, nad ydynt yn cynnig bod yn rhan o ymrwymiadau ariannol sy'n rhoi pwysau na ellir ei reoli ar gynaliadwyedd ariannol y brifysgol yn y dyfodol. Mae dadansoddiadau a gynhelir gan CCAUC o sefyllfa ariannol prifysgolion yn gyfrinachol; caiff y brif wybodaeth o'r dadansoddiadau hyn ei rhannu â Llywodraeth Cymru yn gyfrinachol.

Mae Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn parhau i wynebu nifer o heriau ledled y sector, ond, yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan CCAUC, nid ydym o'r farn bod achos pryder o ran argyfyngau ariannol tymor byr. Hefyd, sicrhaodd Llywodraeth Cymru bod cronfeydd ychwanegol sylweddol ar gael i CCAUC yn 2017-18 a 2018-19 er mwyn helpu i liniaru effaith yr heriau hyn.

Argymhelliad 27. Bod Llywodraeth Cymru, yn y cylch cyllideb nesaf, yn darparu tystiolaeth fanylach o'r dull strategol y mae wedi'i fabwysiadu i gydbwyso cyllid AU ac AB.

Ymateb: Derbyn

Mae cyllid ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yn dod o ddwy ffynhonnell mewn mesurau gwahanol. Darperir cyllid myfyrwyr addysg uwch drwy gymysgedd o fenthyciad a ddarperir drwy gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM ac a weinyddir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru. Caiff hyn ei ategu gan gyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir eto gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a Cyllid Myfyrwyr Cymru. Caiff addysg bellach ei hariannu drwy gyllid grant i golegau yn seiliedig ar niferoedd myfyrwyr ar raglenni dysgu gwahanol a grantiau i fyfyrwyr mewn amgylchiadau penodol. Mae rheoleiddio'r

ffynonellau cyllid hyn yn gymhleth ac ni ellir cyfnewid y broses yn llawn i ddysgwyr o oedrannau a lefelau astudio gwahanol ac yn sgil hynny ar gyfer mathau gwahanol o sefydliadau.

Cynigiodd adolygiad Augar ar gyfer Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn 2019 nifer o newidiadau i'r trefniadau cyllid ar gyfer addysg ôl-orfodol yn Lloegr. Hyd yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi llunio ymateb ffurfiol i'r adolygiad hwn, ond disgwylir y bydd argymhellion yr adolygiad yn cael eu hystyried fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant arfaethedig Llywodraeth y DU. Os cyflwynir newidiadau yn sgil y prosesau hyn, gallai fod goblygiadau i drefniadau cyllido a chyllid myfyrwyr yng Nghymru.

Er gwaethaf yr uchod, ac o fewn cyfyngiadau'r rheoliadau presennol a'r rhaglen gyfredol ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth, caiff cydbwysedd cyllid rhwng Addysg Uwch ac Addysg Bellach ei ystyried fel rhan o baratoadau cyllidebol 2021-22.